**CYNGOR BRO MACHNO**

**Cofnodion** cyfarfod 14 Ionawr, 2016 a gynhaliwyd yn Festri Salem am 7.30.

**Presennol:** Dafydd Gwyndaf (Cadeirydd), Eryl Owain, Dewi Jones, Colin Jones, Eifion Davies a Geraint Thomas.
Ymddiheuriadau gan Aled Roberts a Dafydd Hughes.

**Derbyniwyd cofnodion** cyfarfod o'r Cyngor ar 19 Tachwedd, 2016 fel rhai cywir.

Trafodwyd y materion canlynol:

**Toiledau** – ni dderbyniwyd mwy o wybodaeth gan Gyngor Sir Conwy.

**Materion Ffyrdd** – y clerc i drefnu cyfarfod efo swyddog o Adran Priffyrdd y Cyngor Sir i wneud arolwg o gyflwr y ffyrdd

**Maes parcio ger Capel Salem** – derbyniwyd pris o £650 gan y Brodyr Roberts, Pen-y-ffridd ar gyfer y gwaith o ail-wneud maes parcio'r capel. Penderfynwyd bwrw ymlaen â'r gwaith wedi cael cadarnhad bod Eglwys Unedig Penmachno yn cymeradwyo.

**Cwt Hers** – penderfynwyd gosod y cwt ar rent i un o'r ceisiadau a ddaeth i law. Bydd angen clirio'r cwt cyn ei drosglwyddo.

**Sgipiau Cymunedol** – penderfynwyd archebu dau sgip, un ar gyfer Penmachno ac un arall i Cwm.

**Materion traffig** – penderfynwyd gofyn i'r Cynghorydd Wyn Ellis Jones gysylltu ag Adran Draffig y Cyngor Sir ynglŷn â cherbydau'r gor-yrru heibio Ty'n-y-groes. Hefyd penderfynwyd gofyn am gopi o adroddiad y Cyngor Sir ar gyflwr y bont ger y Ffatri Wlân.

**Cau Banc yr HSBC** – penderfynwyd danfon llythyr cryf o wrthwynebiad i'r bwriad i gau'r gangen ym Metws-y-coed.

**Materion Ariannol** – Wedi derbyn adroddiad ariannol gan y clerc, penderfynwyd cadw at y praesept presennol o £5,000 – Colin Jones yn cynnig ac Eryl Owain yn eilio.

Cymeradwyd talu £140 am ddefnydd o'r festri ar gyfer cyfarfodydd.